

BARTNERIAETH
FFERMYDD Y DYFODOL

# FFERMYDD Y DYFODOL MEWN BUSNES

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## CRYNODEB GWEITHREDOL 2025

## Y CEFNDIR

Ffermydd y Dyfodol mewn Busnes yw trydydd cam menter a gyflawnwyd gan y Bartneriaeth Ffermydd y Dyfodol, sy'n cynnwys:

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
Our Food 1200
Cynghrair Gweithwyr y Tir / Land Workers' Alliance Cymru
Ecological Land Cooperative
[shared assets]
Black Mountains College
Consortiwm GWLAD Consortium
Cultivate
LANTRA
Powys
ecodyfi
Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur / Nature Friendly Farming Network
Tyfu Canolbarth Cymru / Growing Mid Wales

Amcanai'r trydydd cam:

- Sicrhau a gweithredu cais cynllunio ar gyfer tair annedd a seilwaith cysylltiedig ar ran o'r ystâd fferm sy'n eiddo i CSP yn Sarn, yn ymyl y Drenewydd.
- Recriwtio tyfwyr i sefydlu mentrau garddwriaethol newydd a mabwysiadu'r anheddau cysylltiedig.
- Cynyddu rhwydweithio lleol rhwng tyfwyr a dechrau adeiladu eu marchnad ddichonol.
- Hyrwyddo polisi, ariannu a deddfwriaeth i hwyluso rhagor o fentrau garddwriaethol graddfa fechan, cyfeillgar i natur yng Nghymru.

Yr oedd i Gam 3 bedair ffrwd waith gydgysylltiedig:

| RHIF | FFRYDIAU GWAITH | YR HYN A GYFLAWNWYD |
|---|---|---|
| 1 | **TAITH TYFWR:** Ceisio datganiadau o ddiddordeb gan dyfwyr dichonol mewn byw a gweithio ar y safle, dethol tyfwyr, a chyfleoedd hyfforddiant. | Trwy ddwy ymgyrch hysbysebu a 1 datganiad o ddiddordeb, detholwyd tri thyfwr addas ar gyfer safle Sarn. |
| 2 | **DATBLYGU SAFLE:** Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, dechrau'r adeiladu (cysylltiadau cyfleustodau, mynediad at y safle, wynebau celyd, cwt pecynnu). | Er gwaethaf yr oedi maith wrth gael caniatâd cynllunio, cwblhawyd yr holl waith adeiladu y talwyd amdano yn y cam hwn erbyn Chwefror 2025. |
| 3 | **NEGESU AC ATGYNHYRCHU:** Hyrwyddo neges allweddol fod y prosiect hwn yn enghraifft ymarferol o un dull creu cyfleoedd mentro gwledig a chynyddu'r galw am ffrwythau a llysiau a'r cyflenwad ohonynt. | Datblygwyd presenoldeb ar y we, ac mae'r prosiect wedi ennyn llawer o ddiddordeb, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae angen rhagor o amser i ymwneud â'r gymuned leol, a gallir gwneud hyn wrth weithredu yn y dyfodol. |
| 4 | **ADEILADU RHWYDWAITH:** Helpu tyfwyr newydd trwy gysylltu â rhwydwaith ehangach a gweithio â chwsmeriaid dichonol (gan gynnwys y sector cyhoeddus) i helpu cynyddu'r galw am gynnyrch ffres. | Mae Partneriaeth Ffermydd y Dyfodol mewn Busnes yn neilltuol gref, a bydd yn gallu darparu cymorth sylweddol i'r tyfwyr. Bydd ariannu er hyrwyddo amcanion y Partneriaethau Bwyd Lleol ym Mhowys yn darparu cyfleoedd y gall tyfwyr eu defnyddio. |


Gan fod Cam 3 wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, mae'r Bartneriaeth wedi clustnodi'r camau nesaf canlynol:


- Datblygu rhagor ar seilwaith safle Sarn i ddiwallu anghenion y mentrau bychain, a fydd yn canolbwyntio ar adeiladu tri thŷ tros dro tan ganiatâd cynllunio 5 mlynedd. Mae arian ar gyfer hyn, sef tua £250,000, wedi'i sicrhau eisoes trwy'r cymhorthdal ACP3W a weithredir gan CS Powys.
- Ystyried, gwella a dyblygu'r model ym mannau eraill yng Nghymru, gan gynnwys ariannu.
- Cymorth parhaus i ddatblygu'r farchnad ar gyfer ffrwythau a llysiau lleol ledled Cymru.
- Helpu gwella medrau tyfwyr newydd a phresennol gan ganolbwyntio'n neilltuol ar amaeth-ecoleg.

## GWERSI A DDYSGWYD

Mae'r prosiect arloesol yn Sarn wedi esgor ar sawl gwers bwysig:

- Bu'r amser cyfyngedig iawn ar gyfer cyflawni, ynghyd â'r oedi wrth gael caniatâd cynllunio, yn her. Mae gofyn llawer iawn o amser ar gyfer ymgysylltu cymunedol, a bydd angen edrych ato ar yr agwedd hon, gan ganiatáu rhagor o amser i alluogi'r gymuned/tyfwyr i lywio'r datblygu yn y dyfodol.
- Er i'r caniatâd cynllunio gymryd rhagor o amser na'r disgwyl, mae'r arddull hwn wedi'i brofi yn awr, a dylai hyn hwyluso defnyddio'r arddull hwn yn amryw wahanol ffyrdd ac yng ngwahanol ardaloedd.
- Mae'r Bartneriaeth wedi dysgu llawer mewn byr amser, ac eto bydd y profiad hwn yn eu gosod mewn lle da i ddatblygu gwahanol fodelau annog tyfu rhagor o fwyd ledled Cymru. Mae cysylltiadau â sefydliadau tai gwledig yn bosibilrwydd.
- Bydd rhagor o hyfforddiant ar gyfer tyfwyr yn allweddol ar gyfer gweithredu'r fath gynlluniau. Dangosodd menter Sarn bod diffyg perchnogion busnes dichonol â'r cyfuniad angenrheidiol o alluoedd tyfu a busnes.



Map ar raddfa o'r safle gan ddangos y tair llain, a golwg o'r awyr ar y ffin



Argraff artist
o'r anheddau
cwt Nissen



Argraff artist o'r
sied pecynnu a storio



Mae gwaith paratoi'r
pridd wedi dechrau
ar y safle
yn Ionawr 2025

## GOBLYGIADAU POLISI

- Mae datblygu'r Canllaw Cynllunio gan Gyngor Sir Powys a chymeradwyo datblygiad Sarn wedi hynny yn gan sylweddol ymlaen. Mae gwersi polisi pwysig yma i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill Cymru.

- Mae garddwriaeth yn fusnes mawr ac y mae cadwynau cyflenwi lleol, cadarn yn hanfodol ar gyfer ein hiechyd a'n diogeled cenedlaethol. Yng Nghymru, mae angen inni feddwl am ddiogeled bwyd, a chynyddu'n sylweddol faint o ffrwythau a llysiau a dyfwn i'w bwyta'n lleol.

- Mae lle i ddefnyddio llawer rhagor o dir sector cyhoeddus i dyfu ffrwythau a llysiau. Bydd galw lleol cyson, ar sail caffael cyhoeddus, yn allweddol ar gyfer hyn.